

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 30ain o Ionawr 2019

**LLEOLIAD EGLWYS Sant Pedr Penrhos** am 7.00pm.

## Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28-11-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Archwylwyr Allannol

Ymatebion / Anfoneb a.y.y.b.

Ceisiadau Nawdd

Cais Mudiad Ffermwyr Ifanc

Ymddiriedolaeth Gofalwyr / Tenovus

Theatr Bara Caws

Taliadau angen sylw

Cyflog	Mis 9 Rhagfyr a Mis 10 Ionawr	£443.00 x 2
HMRC	Mis 9 a 10	£110.80 x 2
G Williams (tyrchod)	Dal tyrchod (amcanbris £150) ??	
Gamlins	Gwaith Canolfan Penrhos	£945.00 + TAW
		£1,134.00

Traelia Cynghorwyr

Derbynebion

Dim drwy law

I'w trafod hefyd

Damwain Giat y Fynwent

Amcanbriso tarmacio Llwybrau y Fynwent

Cyllideb 2019-20

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Dafydd Gibbard    Dewis Dirprwyaeth i weithio ar Cynllun

Cytuno ar ddyddiad i gyfarfod Gamlins

# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 28ain o Dachwedd 2018  
Yn Eglwys Sant Pedr Penrhos, am 7.00pm.**

Presennol Cyng L James, C. E. Hughes - J. Pierce a D W Jones

Ymddiheuriadau Cyng, D Jones-Morris a B Jones

Cadeirwyd gan Cyng L James

Cod Ymddygiad Cyng L James yn datgan diddordeb gan iddi dderbyn arian  
Dan Benderfyniad 47 I R P W sydd lawr ar yr Agenda

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 31-10-2018

Materion yn codi o'r cofnodion Mantoleni ariannol cyfredol Llais Ogwan a Goriad wedi cyrraedd y Clerc a sieciau wedi eu anfon i'r ddau bapur bro.

Profion Swyddfa – Tystysgif Drydannol dal heb gyrraedd – **Clerc i gysylltu a'i phasio ymlaen**

Adroddiad Ariannol Dosbarthwyd mantolen ariannol am Mis Tachwedd oedd yn dangos fod £41,408.07 yn y cyfrif diwedd busnes heddiw Dosbarthwyd mantolen banc yn dangos balans o £41,608.07 yn y banc am fod sic o £200.00 heb ei chyflwyno.

Dim ad-daliad wedi dod o'r TAW nag ad-daliad NDR o Cyngor Gwynedd **Clerc i gysylltu**

Archwylwyr Allannol Adroddwyd nad oedd dim wedi ei dderbyn hyd yma

Ceisiadau Nawdd Dau gais wedi ei dderbyn ar ol anfon yr Agenda allan a chan na fyddai cyfarfod llawn tan Mis Ionawr cytunwyd i ystyried y ddau.

**Clwb Y Garnedd** Yn unol a'r arfer argymhell ein bod yn cyfrannu **£300.00** tuag at eu costau i gynnal y clwb sy'n cyfarfod yn ein canolfan

**Canolfan Abbey Road** Llythyr yn hytrach na cais oedd hwn wedi ei anfon yn cyfeirio am i ni ystyried gwneud cyfraniad ariannol iddynt yn amlinnellu eu gwasanaeth ag yn cynnig dod draw i roi cyflwyniad. **Cytunwyd i'r Clerc anfon atynt i'w gwahodd i gwblhau ein ffurflen gais am arian ynghyd a mantolen ariannol**

Nodwyd i'r Cyngor Llawn ar yr 8fed o Tachwedd gymeradwyo talu'r taliadau isod oedd heb fod ar Agenda IBC Hydref

Tal dan Pendefyniad 47 I R P W £200.00

Tal symud dodrefn Uned 15 i'r Capel £100.00

Cytunwyd talu a ganlyn D W Lewis Torri Mis Tachwedd £320.00 Cyflog a Treth Incwm Mis 8 Hydref £443.00 a £110.80 Llog Brydeinig 2 Dorch Sul y Cofio £ 40.00 Gas Safe Profion Nwy Uned 15 £ 60.00 Snowdonia Fire Protection Profion Larwm Tan Uned 15 £143.76 **Infoisus hwyr** Gareth Hughes Trwsio To'r Capel a Fainc y Fynwent £95.68 a J D Gardening £300.63 a £75.00 am llau/chwystrellu Cae Chwarae Caerhun

Esbonwyd fod G Williams (Vermin Control) wedi bod yn ceisio trapio tyrchod yn y fynwent ond heb eto anfon infois (amcanbris £150) Cytunwyd ei dalu pan ddoi infois

I'w trafod hefyd Damwain Giat y Fynwent - Fawr ddim i'w adrodd ymhellach ond y Cwmni Ysw am anfon Loss Adjuster i asesu os oedd difrod amgylcheddol yn dilyn y ddamwain. Dim ymateb gan yr Heddlu

## Amcanbrizio tarmacio Llwybrau y Fynwent - Eric Humphries

Eric Humphries wedi galw i fesur ond heb ddo yn ol hefo amcanbris – Y clerc hefyd wedi cysylltu hefo Cwmni James Cyf ond wedi dweud mae dechrau'r flwyddyn fyddwn ni'n edrych tuag ati i wneud y gwaith

### **Gosod Cyllideb 2019-20**

Dosbarthwyd rhagolwg/dybiaeth o gostau refeniw y Cyngor at y Flwyddyn 2019-20 o ystyried ein costau cyffelyb am 2018-19.

Byddai arbedion yn sgil ein penderfyniad i beidio adnewyddu prydles y Swyddfa yn Parc Menai a'r penderfyniad wnaethpwyd ar y 4ydd o Hydref i neilltuo'r arbedion hynny tuag at adeiladu y Ganolfan Gymunedol newydd ar safle Ysgol y Faenol

### **Argymhelliad i'r Cyngor Llawn felly yw i beidio codi ein Cyllideb o £50K ag i eto neilltuo arbedion costau cyffelyb i gostau cynnal y Swyddfa ar gyfer yr adeilad arfaethedig newydd.**

Ymateb Gamlins i brydlesi y ganolfan bresennol a'r newydd

Mae Gamlins wedi anfon llythyr ar ein rhan i Adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r trafodaethau o arwyddo prydles dros-dro y safle presennol a drafft o brydles ar gyfer yr adeilad newydd. 'Roedd yn disgwyl ymateb yn ol

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol Dim i'w ychwanegu yn dilyn yr ymgynghoriad

Materion Cynghorwyr

Trafodwyd y Bosus Blodau – ddim wedi bod ar eu gorau ond eto tymhorau anghyffredin wedi bod hefyd – Gofyn i J D Gardening dynnu rhaglen allan at 2019-20 a holi am brisiau gan eraill

Sonwyd am blanu blodau gwyllt hefyd allai olygu gostyngiad yn y nifer o doriadau gwair fyddai ei angen

### **Mater Brys**

Adroddoddwyd fod peth pryder ynglyn a gweithrediad y Cyngor a rhai aelodau ynghyd a'r Cadeiryddion yn anghyfforddus ynglyn ag ambell ddiwyddiad yn ddiweddar. Pryderai rhai nad oedd ein Rheolau Sefydlog efallai yn hollol glir ar 'God Ymddygiad' 'Datgan Buddiant' GDPR ag yn y blaen. Trafodwyd a ddylid cael is-bwyllgor i edrych yn ar ein holl bolisiau yn eu tro – eu gwiro – addasu os oes angen a'i ail-mabwysiadu.

'Roedd y Cadeirydd wedi cysylltu ag Unllais Cymru ond eto'n teimlo nad oedd wedi derbyn ateb ystyrion a rhy ben agored

Er mwyn cael eglurder ar hyn cytunwyd i ddirprwyaeth ofyn am gyfarfod a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.

### **Fel Cadeirydd y Cyngor cytunodd Cyng C. Hughes i drefnu hynny**

#### **Cynhalwyd Cyfarfod arbennig o'r Is-Bwyllgor Cyllid ar y 5ed o Rhagfyr yn Eglwys Sant Pedr**

Cyfarfod oedd hwn yn dilyn cyfarfod rhwng y Cadeirydd Cyng C Hughes Cyng D Jones-Morris a'r Clerc hefo Shon Hughes Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol Cyngor Gwynedd)

Pwysleiswyd bwysicrwydd fod ein Rheolau Sefydlog yn yn hyfyw ac i bwrpas ag y dylai ein polisiau gael ei adolygu a'i addasu yn rheolaidd.

Mae **Cod Ymddygiad** yr un mor berthnasol mewn cyfarfodydd ag oedd tu allan i gyfarfodydd.

Dylai pob Cyngorydd arwyddo i'r Cod Ymddygiad yn ystod ei gyfarfod cyntaf o'r Cyngor

Ynglyn a **Datgan Buddiant** esbonwyd fod gwahanol lefel o ddatgan buddiant  
Sef Buddiant personol ar un llaw - a buddiant personol a rhagfarnol ar y llaw arall

Os oes gan berson neu berthynas agos gyswilt personol a mater dan sylw dylid datgan buddiant personol a chwblhau'r ffurflen briodol

Os oes datganiad o fuddiant personol a rhagfarnol ynglyn ag eitem ar yr Agenda ag aelod o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r buddiant – onibai fod eithriad – ble gall aros siarad a pleidleisio  
**Ni ddylai'r person yn datgan y buddiant hwnnw gymeryd rhan mewn unrhyw ran o'r drafodaeth a dylai adael y cyfarfod**

Os yw person wedi ei ethol i gynrychioli Cyngor ar unrhyw gorff yna nid oes angen datgan buddiant

Cyfrifoldeb yr unigolyn i'w datgan buddiant a chwblhau'r ffurflen briodol ar gyfer hynny.